Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-530-7

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.

Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

Ansawdd Profiad y Claf 9

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 12

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 17

4. Y camau nesaf 20

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 22

Atodiad C – Cynllun gwella 23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Heol yr Eglwys Newydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 29 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y nifer bach o ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion fod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn a chadarnhaodd ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad sylwadau'r cleifion bod y staff yn y practis yn barod i helpu.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a deunyddiau hybu iechyd i gleifion. Roedd system llywio gofal a brysbennu apwyntiadau ar waith gyda'r nod o sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol mewn modd amserol. Fodd bynnag, cafwyd ymatebion cymysg yn yr holiadur i gleifion ynghylch a oedd apwyntiadau yn y practis yn cael eu cynnal ar yr amser a drefnwyd.

Roedd dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain a Language Line ar gael ac roedd apwyntiadau dwbl yn sicrhau bod digon o amser i'w defnyddio. Fodd bynnag, gellid gwella'r trefniadau cyfeirio i roi gwybod i'r cleifion am yr holl opsiynau cymorth cyfathrebu sydd ar gael yn y practis.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Creu taflen wybodaeth i gleifion a diweddaru gwefan y practis i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chywir ynghylch holl gyfleusterau'r practis a'r tîm
- Cryfhau'r ffordd y rhoddir y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd pob rhan o'r practis yn hygyrch i bobl ag amrywiaeth o anghenion. Roedd ardaloedd gofal babanod ar gael. Gellid trefnu ymweliadau cartref i sicrhau bod y cleifion nad oeddent yn gallu gadael eu cartref i fynd i apwyntiadau'n parhau i gael y gofal sydd ei angen arnynt.
- Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith i gefnogi camau i ddarparu gwasanaeth teg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac yn addas at y diben. Fodd bynnag, nodwyd bod rhywfaint o annibendod a llwch wedi cronni mewn ardaloedd storio ac ardaloedd i staff yn unig.

Roedd cynllun parhad busnes cyfredol ar waith ac roedd y staff yn wybodus ynghylch systemau cymorth brys yn y practis.

Roedd prosesau addas ar waith i archebu, monitro, storio a gwaredu cyffuriau a gedwir ar safle'r practis. Roedd staff y practis yn ymwybodol o'r cynllun cerdyn melyn ar gyfer rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau a gwnaethant ddweud wrthym y byddai'r meddygon teulu yn cael eu hysbysu hefyd er mwyn sicrhau bod y practis yn parhau i ddarparu gofal priodol.

Roedd gohebiaeth yn ymwneud ag atgyfeiriadau, trefnu profion a chanlyniadau yn cael eu rheoli mewn modd amserol o fewn y practis, gyda chleifion ac yn allanol gyda darparwyr gofal iechyd eraill. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi diffinio protocolau ffurfiol yn llawn ar gyfer rheoli'r ystod o gyfathrebiadau a gafwyd ac a gynhyrchwyd. Roedd hyn yn golygu nad oedd llawer o sicrwydd bod pob aelod o'r tîm yn rhoi prosesau ar waith yn gyson, ac ni ellid cynnal archwiliadau i gadarnhau bod y prosesau hyn yn gweithredu'n effeithiol.

Roedd gwybodaeth yng nghofnodion y cleifion a grëwyd gan y system apwyntiadau AI yn rhoi nodyn cynhwysfawr i'r clinigwyr ynghylch cyflwr y claf a'r amcanion ar gyfer yr ymgynghoriad, gan alluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'r cam brysbennu cychwynnol. Roedd nodiadau'r clinigwyr yn cynnwys cofnodion cyfredol a chlir a oedd yn cynnwys manylion cynhwysfawr am drafodaethau â'r cleifion a rhesymu da. Fodd bynnag, roedd trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer data a fewnbynnwyd yn systematig yn gyfyngedig.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu gweithdrefnau diogelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol a gwella ymwybyddiaeth y staff o drefniadau diogelu
- Gwella'r ffordd y caiff cyfarpar clinigol ei storio er mwyn osgoi cadw eitemau y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio a sicrhau bod ardaloedd storio yn lân ac yn daclus
- Cryfhau prosesau rheoli gwastraff gan gynnwys rhoi gweithdrefnau labelu blychau offer miniog ar waith yn llawn a sicrhau bod biniau gwastraff yn cael eu cadw dan glo pan fyddant yn cael eu storio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn cynnal systemau effeithiol ar gyfer casglu presgripsiynau a sicrhau eu bod yn ddiogel. Nodwyd bod cofnodlyfr casglu presgripsiynau yn y fferyllfa yn arfer canmoladwy.
- Roedd yn ymgysylltu o fewn y gwasanaeth ac â'r tîm amlddisgyblaethol ehangach i gefnogi diogelwch y cleifion a chydgysylltu gofal, monitro cyfraddau atgyfeirio ac adolygu ymarfer yn erbyn y safonau disgwyliedig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion. Roedd y ddau unigolyn a ymatebodd i'n holiadur i staff yn gadarnhaol, ond nid oedd y naill na'r llall yn teimlo bod digon o staff yn y practis. Roedd systemau negeseuon, cyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol yn galluogi'r tîm i gyfathrebu'n glir. Gallai'r staff gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau a gwnaethant ddweud y byddai rheolwyr y practis yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddiweddariadau i'r rhain. Roedd trefniadau cynllunio rota addas, mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd a rhaglen frechu flynyddol rhag y ffliw ar gyfer y staff hefyd yn cefnogi llesiant y staff.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diffinio ac ymgorffori rhaglen hyfforddiant craidd a chadw tystiolaeth gynhwysfawr o hyfforddiant y staff. Sicrhau y cedwir cofnodion personél cynhwysfawr, neu fod asesiadau risg addas yn cael eu cwblhau lle nad oes gwybodaeth ar gael.
- Diweddaru gweithdrefnau cwyno'r practis a gwybodaeth i gleifion er mwyn adlewyrchu Gwrando ar Bobl: fframwaith GIG Cymru ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn (2026) yn llawn a darparu gwybodaeth “Dywedoch chi, gwnaethom ni” i ddangos gwersi a ddysgwyd a newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth gan gleifion.
- Diweddaru polisïau llywodraethu gwybodaeth i roi mwy o sicrwydd ynghylch diogelwch gwybodaeth cleifion o fewn systemau AI.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn gweithio fel tîm, ac roedd rolau, cyfrifoldebau, llinellau adrodd, cydweithio a chymorth clir ar waith
- Roedd yn dangos negeseuon diolch gan gleifion a staff gofal iechyd ar hysbysfwrdd gwerthfawrogi'r staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gan mai nifer bach o ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC, dylid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus ac ni ddylid ystyried eu bod yn cynrychioli poblogaeth ehangach cleifion y practis. Fodd bynnag, ar y cyfan, nododd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion fod y gwasanaeth naill ai'n ‘dda’ neu'n ‘dda iawn’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> “Bob amser yn barod eu cymwynas ac yn ofalgar”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn ardal aros y practis ac ar y wefan. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau gan gynnwys anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio a gwasanaethau cymorth lleol, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion, gan gynnwys gwasanaethau ychwanegol ar gyfer atal cenhedlu, rheoli Diabetes Math 2 mewn oedolion, a rhaglenni imiwneiddio. Roedd gwasanaethau'r practis yn cael eu darparu gan feddygon teulu, nyrsys, un cynorthwyydd gofal iechyd a fferyllydd. Roedd ffisiotherapyddion y bwrdd iechyd a chwnselydd o'r tîm iechyd meddwl yn gweithio'n rheolaidd o'r practis hefyd. Roedd cydleoli o fewn yr adeilad gyda gwasanaeth fferyllfa ar wahân hefyd yn golygu y gallai cleifion geisio cyngor a chasglu presgripsiynau.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais a chyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion ac roedd y staff yn barod i helpu.

Roedd mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion yn y dderbynfa, wrth gysylltu â'r practis dros y ffôn ac yn ystod ymgynghoriadau.

Roedd posteri yn rhoi gwybod i gleifion am eu hawl i gael cwmni yn ystod archwiliadau yn weladwy i gleifion yn yr ystafelloedd clinigol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd pob aelod o'r staff a all ymgymryd â rôl hebryngwr wedi cwblhau'r hyfforddiant a bod angen diweddaru'r polisi hebryngwyr er mwyn cynnwys y codau y dylai'r staff eu defnyddio wrth ddogfennu'r cynnig a'r defnydd o hebryngwr yng nghofnodion y cleifion.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi hebryngwyr a sicrhau bod yr holl staff sy'n

gweithredu fel hebryngwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd system llywio gofal a brysbennu apwyntiadau ar waith gyda'r nod o sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol mewn modd amserol. Roedd ymatebion o arolwg cleifion a gynhaliwyd gan y practis yn 2025 wedi dangos bod llawer o gleifion yn ei chael hi'n anodd trefnu apwyntiadau pan oedd angen iddynt wneud hynny, felly rhoddwyd system Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar waith ar ddechrau 2026 i helpu i ateb galwadau ffôn a threfnu apwyntiadau. Dywedwyd wrthym fod y system hon yn ateb hyd at 25% o'r galwadau ffôn a gafwyd a bod rheolwyr y practis yn gweithio gyda'r darparwr digidol i wneud y defnydd gorau ohoni. Roedd swyddogion llywio gofal wedi cael hyfforddiant ac roedd cymorth clinigol ar gael iddynt os nad oeddent yn sicr o'r ffordd orau o ymateb i geisiadau cleifion. Gwelsom fod y polisi mynediad yn adlewyrchu'r arferion cyfredol. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer swyddogion llywio gofal er mwyn cynnwys gwybodaeth am weithio ochr yn ochr â'r system AI a dogfennau llwybrau safonol i gefnogi'r rôl hon yn fwy llawn.

Dylai'r practis sicrhau bod y broses llywio gofal yn cael ei chefnogi drwy ddarparu gwybodaeth gyfredol, gan gynnwys dogfennau llwybrau safonol, fel adnodd i'r staff anghlinigol.

Roedd y cleifion a oedd angen apwyntiad brys yn y practis yn cael eu hannog i ffonio am 8am. Yna, byddai'r system brysbennu clinigol yn penderfynu ai apwyntiad ar yr un diwrnod neu apwyntiad cyffredinol fyddai'n diwallu anghenion y claf orau a byddai'r staff yn cysylltu â'r claf i gynnig apwyntiad yn unol â hynny. Roedd apwyntiadau y gellid eu trefnu ymlaen llaw ar gael i gleifion eu trefnu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod y practis yn myfyrio ar yr ymatebion cymysg a gafwyd i holiadur AGIC i gleifion ynghylch a oedd apwyntiadau yn y practis yn cael eu cynnal ar yr amser a drefnwyd.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau i gael cymorth meddygol na allai aros tan oriau agor y feddygfa.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am y practis drwy wefan y practis, yn ysgrifenedig, drwy negeseuon testun a gan y staff wrth fynychu apwyntiadau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr mewn

un ddogfen hawdd ei gweld. Roedd angen diweddaru gwefan y practis er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm clinigol wedi'u rhestru er gwybodaeth i'r cleifion.

Dylai'r practis adolygu ei wybodaeth i gleifion i sicrhau ei bod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a'i bod yn darparu'r holl wybodaeth allweddol.

Defnyddiwyd baneri digidol yng nghofnodion y cleifion i nodi anghenion cyfathrebu y cleifion fel y gellid rhoi mesurau ar waith i ddiwallu'r rhain. Roedd sgrin hunanwasanaeth yn galluogi'r cleifion i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad yn eu dewis iaith. Roedd gwasanaethau dehongli Iaith Arwyddion Prydain a Language Line hefyd ar gael a byddai apwyntiadau dwbl yn cael eu trefnu er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer ymgyngoriadau lle defnyddiwyd yr opsiynau cyfathrebu hyn. Roedd dolen sain ar gael i gleifion a oedd yn colli eu clyw. Rhoddwyd gwybod i'r cleifion fod y gwasanaeth hwn ar gael ar wefan y practis. Roedd arwyddion ar y safle yn codi ymwybyddiaeth cleifion ymhellach ac yn cefnogi mynediad at yr adnoddau hyn pe bai angen.

Nid oedd y staff yn gwybod am unrhyw siaradwyr Cymraeg a oedd wedi'u cofrestru â'r practis neu a oedd yn gweithio fel rhan o dîm y practis. Gwelwyd rhai arwyddion a thaflenni Cymraeg. Fodd bynnag, roedd angen cryfhau camau i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith ymhellach, er enghraifft, drwy sicrhau bod dogfennau allweddol ar gael i gleifion yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Dylai'r practis sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ymgorffori fel y gall cleifion gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg pe baent yn dymuno.

Hawliau a chydraddoldeb

Nodwyd gennym fod pob rhan o'r practis yn hygyrch i bobl ag amrywiaeth o anghenion. Roedd ardaloedd gofal babanod ar gael hefyd.

Gellid trefnu ymweliadau cartref i sicrhau bod y cleifion nad oeddent yn gallu gadael eu cartref i fynd i apwyntiadau'n parhau i gael y gofal sydd ei angen arnynt.

Roedd prosesau ar waith i ddiweddaru cofnodion y cleifion pe bai unrhyw newidiadau i enwau, rhagenwau neu wybodaeth bersonol arall.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith i gefnogi camau i ddarparu gwasanaeth teg i'r cleifion a gweithle teg i'r staff. Roedd rhai aelodau o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ynghylch egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac yn addas at y diben. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd mewn cyflwr da. Fodd bynnag, bu oedi wrth dacluso ardaloedd i'r staff yn unig ac felly roedd rhai eitemau yn cael eu storio yn yr un ystafell â'r boeler o hyd.

Dylai'r practis sicrhau bod ystafell y boeler yn cael ei chadw'n glir bob amser i leihau'r risg o dân.

Gwelsom hefyd fod nifer mawr o eitemau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn y cypyrddau storio, gan gynnwys weips glanhau, chwistrellau, profion diagnostig, dresinau a thiwbiau rhoi ocsigen. Gwnaethom godi'r materion hyn gyda'r uwch-aelodau o'r staff ac mae'r camau a gymerwyd i ddatrys ein pryderon wedi'u nodi yn Atodiad A.

Roedd cynllun parhad busnes cyfredol ar waith. Roedd arwyddion yn nodi lleoliad cyfarpar brys a chynlluniau gweithredu pe bai argyfwng. Roedd y staff yn wybodus ynghylch y systemau cymorth brys a oedd ar waith ac yn hyderus bod y rhain yn effeithiol. Roedd polisi addas ar waith ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun er mwyn cefnogi diogelwch y staff pan fyddant yn gweithio ar y safle ac ar ymweliadau â chartrefi.

Roedd system addas ar gyfer derbyn a rhannu rhybuddion diogelwch cleifion i aelodau perthnasol o'r tîm ar waith.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y gwaith o lanhau ardaloedd clinigol yn cael ei gofnodi'n addas. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd o fewn safle'r practis yn lân yr olwg ac roedd tystiolaeth bod staff y practis a'r glanhawyr dan gontract yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Fodd bynnag, gwelsom fod rhywfaint o lwch wedi cronni yn yr ardaloedd storio, gan gynnwys lle roedd y cyfarpar brys yn cael ei gadw, a bod angen gwella argaeledd y mopiau, eu glendid a'r ffordd y maent yn cael eu storio.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod glendid yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyson ym mhob rhan o'r practis**
- **Bod yr holl fopiau gofynnol ar gael i lanhau mannau cyffredinol, y toiledau ac ardaloedd clinigol a bod pennau mopiau'n cael eu newid pan fyddant yn fudr a'u storio â'u pennau i fyny ac allan o'r bwcedi.**

Roedd cymorth atal a rheoli heintiau ar gael gan y bwrdd iechyd ac roedd arweinydd atal a rheoli heintiau wedi cael ei enwebu ar gyfer y practis hefyd er mwyn sicrhau bod y

staff yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau ac i oruchwylio archwiliadau rheolaidd. Roedd archwiliad atal a rheoli heintiau a rheoli gwastraff wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar. Fodd bynnag, canfu ein harolygiad nad oedd blychau offer miniog wedi'u labelu'n llawn fel sy'n ofynnol a bod hyn yn broblem reolaidd.

Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer labelu blychau offer miniog wrth eu rhoi at ei gilydd a'u cau yn cael eu rhoi ar waith yn llawn.

Roedd gwastraff yn cael ei ddidoli'n addas a'i gadw'n ddiogel tan iddo gael ei gasglu. Fodd bynnag, gan fod y biniau'n cael eu cadw mewn ardal storio a rannwyd â busnes arall, roedd angen eu cadw dan glo.

Dylai'r practis sicrhau bod y biniau gwastraff yn cael eu cadw dan glo.

Roedd gan y practis bolisïau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan nodwydd. Fodd bynnag, roedd angen cynnwys mwy o fanylion yn y rhain er mwyn cefnogi camau i'w rhoi ar waith.

Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisïau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan nodwydd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- **Bod rhagofalon Legionella wedi'u dogfennu ar waith ar gyfer pob allfa ddŵr, gan gynnwys cyfleusterau cawod y staff**
- **Bod gwybodaeth ar gael ynghylch â phwy y dylai'r staff gysylltu pe bai anaf a achosir gan nodwydd at ddibenion monitro a chymorth perthnasol.**

Roedd brechiadau blynyddol rhag y ffliw yn cael eu cynnig i'r staff i'w diogelu ac fel mesur i atal y ffliw rhag cael ei drosglwyddo i'r cleifion.

Gwelsom fod hylif diheintio dwylo a chyfarpar diogelu personol ar gael i gleifion ym mhob rhan o'r practis.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau addas ar waith i archebu, monitro, storio a gwaredu cyffuriau a gedwir ar safle'r practis. Roedd yr holl gyffuriau a oedd ar y safle ar adeg yr arolygiad yn gyfredol. Roedd y trefniadau ar gyfer monitro tymheredd a chynnal a chadw'r oergelloedd clinigol yn gynhwysfawr. Roedd polisi cadwyn oer ar waith ac roedd pob cam priodol wedi'i ddilyn mewn ymateb i doriad diweddar. Roedd tymereddau'n cael eu monitro mewn ystafelloedd lle roedd meddyginiaethau nad oes angen eu cadw mewn oergell yn cael eu cadw hefyd.

Gwelsom fod gwiriadau wedi'u dogfennu o gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cwblhau bob wythnos a bod eitemau ar gael yn unol â chanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Fodd bynnag, roedd angen calibradu'r ocsimedr pwls, roedd bagiau Ambu yn edrych yn hen ac nid oeddent mewn pecynnu addas a oedd yn arddangos dyddiadau

dod i ben ac nid oedd y silindrau ocsigen wedi'u gosod yn sownd ar eu traed.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar brys yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas yn barod i'w ddefnyddio a bod silindrau ocsigen yn cael eu gosod yn sownd yn eu lle.

Roedd staff y practis yn ymwybodol o'r cynllun cerdyn melyn ar gyfer rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau a gwnaethant ddweud wrthym y byddai'r meddygon teulu yn cael eu hysbysu hefyd er mwyn sicrhau bod y practis yn parhau i ddarparu gofal priodol.

Roedd arfarniadau blynyddol a gwaith tîm yn cefnogi pob aelod o'r staff a oedd yn ymwneud ag adolygu a phresgripsiynu meddyginiaethau i weithio'n ddiogel. Gallai'r cleifion ofyn am bresgripsiynau rheolaidd drwy ffurflenni ysgrifenedig neu lwyfan ar-lein. Nododd y staff fod y camau diweddar i fabwysiadu'r gwasanaeth presgripsiynu electronig wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan ac wedi lleihau nifer y presgripsiynau papur a roddir. Roedd prosesau ar waith ar gyfer storio, monitro a gwaredu padiau presgripsiwn yn addas pan fo angen a chadwyd cofnod o'r presgripsiynau a gasglwyd o'r fferyllfa, sy'n arfer canmoladwy.

Nid oedd un Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer y pigiad atal cenhedlu, Depo-Provera, yn gyfredol ac roedd angen cael un newydd yn ei le neu ei ddiweddaru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol lawn.

Dylai'r practis sicrhau mai'r fersiynau diweddaraf o bob Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion a ddefnyddir yn y practis.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisi diogelu ar waith. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff yn gwybod pwy oedd arweinydd diogelu dynodedig y practis er mwyn uwchgyfeirio pryderon. Roedd angen cynnwys rhagor o fanylion yn y polisi diogelu hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau diogelu allanol fel y gallai'r staff gael gafael ar y rhain yn gyflym pe bai angen, ac roedd angen ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu Cymru ymhellach. Yn ogystal, roedd angen cysylltu'r polisïau ar gyfer achosion lle nad oedd claf wedi mynychu apwyntiad neu lle nad oedd rhywun wedi dod â'r claf i apwyntiad er mwyn sicrhau nad oedd pryderon ynghylch diogelwch plant neu gleifion eraill sy'n agored i niwed sy'n dibynnu ar bobl eraill i fynychu apwyntiadau yn cael eu colli.

Dylai'r practis adolygu ei weithdrefnau diogelu yn unol â'r safonau cenedlaethol.

Roedd llwybrau cyfathrebu yn sicrhau bod y practis yn gwybod pa mor aml roedd cleifion yn mynd i'r adran achosion brys ac yn mynychu, neu ddim yn mynychu, apwyntiadau gyda gwasanaethau eraill. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd yn ystyried unrhyw gleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg fel bod modd mynd ati fel tîm i gynnal diogelwch cleifion yn y gymuned.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol yn y practis yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod dyfeisiau'n parhau'n ddiogel ac yn addas i'w defnyddio. Roedd tystiolaeth bod gwaith calibradu yn cael ei gynnal drwy gontractwyr perthnasol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom dystiolaeth o ohebiaeth amserol mewn perthynas ag atgyfeiriadau, trefnu profion a chanlyniadau o fewn y practis, gyda chleifion, ac yn allanol gyda darparwyr gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau gofal eilaidd a gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, nid oedd protocolau ffurfiol ar gyfer ymdrin â'r amrywiaeth o gyfathrebiadau a geir ac a gynhyrchir gan y practis wedi'u diffinio i gefnogi ffyrdd cyson o weithio ar draws y tîm neu alluogi archwiliadau er mwyn sicrhau bod prosesau'n gweithio'n dda.

Dylai'r practis ystyried diffinio protocolau llif gwaith yn ffurfiol er mwyn cefnogi'r staff a galluogi archwiliadau i sicrhau bod prosesau ar gyfer ymdrin â chyfathrebiadau yn gweithio'n effeithiol.

Adolygwyd cyfraddau atgyfeirio'n ddiweddar fel rhan o gyfarfod prosiect parhad gofal. Roedd cyfarfodydd clinigol yn cynnig fforwm i drafod canllawiau clinigol ynghyd ag unrhyw gleifion a fu farw er mwyn adolygu yn erbyn safonau disgwyliedig y practis.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion electronig 10 claf a oedd yn cael eu cadw o fewn y system TG ddiogel. Roedd cofnodion a grëwyd gan y system apwyntiadau AI yn rhoi nodyn cynhwysfawr i'r clinigwyr am gyflwr y claf a'r amcanion ar gyfer yr ymgynghoriad, gan alluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'r cam brysbennu cychwynnol.

Roedd nodiadau'r clinigwyr yn cynnwys cofnodion cyfredol a chlir a oedd yn cynnwys manylion cynhwysfawr am drafodaethau â'r cleifion a rhesymu da.

Defnyddiwyd templed i gofnodi bod hebryngwr wedi cael ei gynnig a ph'un a ddefnyddiwyd y gwasanaeth ai peidio lle y bo'n berthnasol. Fodd bynnag, nid oedd templedi ar gyfer gweithdrefnau eraill yn cael eu defnyddio'n gyson a fyddai'n helpu i safoni'r ymarfer. Roedd y rhestr gryno yng nghofnod un claf hefyd yn anghyflawn ac nid oedd adwaith niweidiol i gyffur wedi'i ddogfennu yn yr adran berthnasol er mwyn sicrhau bod y clinigydd yn ymwybodol yng nghofnod claf arall. Roedd aelodau dirprwyedig o'r staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant ar gwblhau crynodebau a defnyddio codau. Fodd bynnag, roedd trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer data a

fewnbynnwyd yn systematig yn gyfyngedig. Gwnaethom awgrymu y gallai fod yn fuddiol cynnal hyfforddiant pellach ar y system cofnodion cleifion electronig newydd gan fod staff y practis wedi dweud wrthym eu bod yn dod i'r arfer â'r system hon o hyd.

Dylai'r practis ystyried y canfyddiadau a'r dulliau ffurfiol hyn i sicrhau ansawdd y data a gaiff eu mewnbynnu yn barhaus.

Ar y cyfan, nodwyd bod y wybodaeth yr oedd ei hangen i adolygu meddyginiaeth wedi'i chofnodi ac, mewn un achos, roedd cysylltiadau clir rhwng cyflyrau meddygol y claf a meddyginiaethau'r unigolyn. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod archwiliadau nac adolygiadau arferol o feddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n ffurfiol, a fyddai'n faes i'w ddatblygu i fferyllydd y practis.

Dylai'r practis ystyried rôl y fferyllydd a sut y gellid datblygu adolygiadau o feddyginiaeth ac archwiliadau arferol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion. Er bod yr adborth yn yr arolwg i staff yn gyfyngedig, nododd y rhai a ymatebodd i'n holiadur i staff eu bod yn credu mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis, bod y cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau'r practis mewn modd amserol, a bod mesurau ar waith i ddiogelu cyfrinachedd, preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac y byddent, ar y cyfan, yn hapus â safon y gofal a ddarperir iddyn nhw eu hunain, ffrindiau neu aelodau o'u teulu.

Dywedodd y staff hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael eu cynnwys yn addas yn y gweithle. Fodd bynnag, nid oedd y naill ymatebydd na'r llall i'n holiadur yn teimlo bod digon o staff yn y practis i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol. Rydym yn awgrymu bod y practis yn myfyrio ar yr adborth hwn.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom enghreifftiau da o weithio fel tîm drwy gydol ein harolygiad a nodwyd bod rheolwr y practis yn blaenoriaethu amser ar y safle i gefnogi'r tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y gweithle a'u bod yn glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd. Roedd systemau negeseuon, cyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol yn galluogi prosesau cyfathrebu clir. Gallai'r staff gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau a gwnaethant ddweud y byddai rheolwyr y practis yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddiweddariadau i'r rhain.

Roedd y meddygon teulu sy'n bartneriaid a rheolwyr y practis wedi dosbarthu atebolrwydd am ymarfer clinigol a sicrhau ansawdd. Gwnaethom drafod y syniad o flaenoriaethu gwelliannau a gweithio tuag at gynlluniau gweithredu penodol, mesuradwy ac amserol gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y cynnydd a wnaed yn erbyn yr hunanasesiad diweddaraf o ymarfer llywodraethu clinigol yn araf.

Roedd hyblygrwydd o fewn tîm y practis yn ceisio cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau amserol, cyson ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd trosiant diweddar ymhlith y staff a gostyngiad cyffredinol mewn oriau gwaith wedi arwain at heriau o ran cynaliadwyedd. Dywedwyd wrthym fod cynrychiolwyr o'r feddygfa, gwasanaethau gofal sylfaenol a'r bwrdd iechyd wedi cyfarfod yn ddiweddar ynghylch lefel y galw ar y practis ac argaeledd adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion personél a hyfforddiant a nodwyd bod y rhain yn cynnwys nifer o fylchau.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod cofnodion personél cynhwysfawr yn cael eu cadw neu fod asesiadau risg yn cael eu cwblhau pan na fydd gwybodaeth ar gael ar y cam recriwtio neu'n dilyn hynny**
- **Bod rhaglen hyfforddiant craidd yn cael ei diffinio a'i hymgorffori ac y cedwir tystiolaeth gynhwysfawr o hyfforddiant.**

Roedd rhaglen sefydlu wedi'i dogfennu ar waith i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o staff a staff locwm sy'n gweithio yn y practis yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r gweithdrefnau gweithredol. Byddai aelodau newydd o staff hefyd yn mynd drwy gyfnod prawf i sicrhau eu bod wedi datblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu rôl o fewn amserlen benodol. Roedd y staff sefydledig yn deall eu maes ymarfer yn glir ac yn teimlo eu bod yn gallu gweithio yn unol â'r maes hwn. Roedd trefniadau cynllunio rota addas, mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd a rhaglen frechu flynyddol rhag y ffliw ar gyfer y staff hefyd yn cefnogi llesiant y staff.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd cleifion yn gallu darparu adborth yn bersonol neu drwy arolygon cleifion a gallent godi cwynion ffurfiol gyda rheolwr y practis. Nododd staff y practis eu bod yn agored i adborth a'u bod yn ceisio datrys unrhyw bryderon yr oedd gan gleifion pan fyddent yn cael eu codi os oedd yn bosibl. Roedd yr holl bryderon a chwynion a rannwyd â rheolwr y practis yn cael eu cofnodi ar daenlen er mwyn cefnogi camau priodol i'w trin a galluogi'r practis i ddysgu o ddigwyddiadau. Roedd yr amserlenni ar gyfer ymateb yn addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen diweddaru'r polisi cwynion a'r wybodaeth i gleifion er mwyn ymgorffori Gwrando ar Bobl: fframwaith GIG Cymru ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn (2026) yn llawn.

Dylai'r practis sicrhau bod y gweithdrefnau cwyno wedi'u hymgorffori'n llawn a rhoi gwybod i gleifion am Gwrando ar Bobl: fframwaith GIG Cymru ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn (2026).

Dywedwyd wrthym fod cwynion yn cael eu trafod er mwyn i dîm y practis ddysgu gwersi a bod themâu yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol. Byddai arddangos gwybodaeth ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni’ hefyd yn codi proffil dulliau casglu adborth y practis a'r newidiadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd..

Dylai'r practis ystyried ffyrdd o rannu gwybodaeth â'r cleifion am y gwersi y mae'r

practis wedi'u dysgu mewn ymateb i adborth a gafwyd. Gallai hyn fod drwy fwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn y practis, hysbysiad ar y wefan neu drwy ddulliau eraill.

Roedd hysbysfwrdd gwerthfawrogi'r staff hefyd yn dangos negeseuon diolch a gafwyd gan gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod swyddog diogelu data addas wedi'i benodi. Roedd y dulliau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelu data yn glir ac wedi cael eu rhoi ar waith yn addas pan fo angen. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth ac roedd y cleifion yn cael gwybod am god cyfrinachedd y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r polisïau llywodraethu gwybodaeth er mwyn rhoi sicrwydd mwy penodol ynghylch diogelwch gwybodaeth cleifion a oedd yn cael ei thrin a'i storio o fewn y systemau AI a oedd yn cael eu cyflwyno yn y practis.

Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisïau llywodraethu gwybodaeth ynghylch defnyddio systemau AI ar gyfer ymgyngoriadau ac at unrhyw ddiben arall.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod cyfarfodydd clinigol a chlwstwr amrywiol ynghyd â chyfarfodydd y practis yn cynnig cyfle i ystyried arferion gorau a mentrau gwella. Roedd prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a dadansoddi digwyddiadau o bwys hefyd yn ategu gwersi a ddysgwyd. Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd mewn perthynas â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella yn cael eu cwblhau yn y practis, ond roedd angen trefnu'r rhain yn rhaglen fwy systematig. Byddai archwiliad o ddefnyddio steroidau am gyfnod hir yn ychwanegiad cadarnhaol hefyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd nifer mawr o eitemau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn y cypyrddau storio, gan gynnwys weips glanhau croen, chwistrellau, profion diagnostig, dresinau a thiwbiau rhoi ocsigen.	Roedd posibilrwydd y gallai'r cyfarpar fethu neu beri risg rheoli heintiau i'r cleifion.	Trafodwyd y pryder â'r uwch-aelodau o'r staff, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am fonitro ac archebu stoc.	Gwaredwyd yr eitemau perthnasol. Cytunwyd y byddai'r practis yn adolygu'r eitemau a ddefnyddir yn rheolaidd a'r nifer a ddefnyddir i sicrhau bod y nifer priodol yn cael ei ail-archebu.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd**

Dyddiad yr arolygiad: **29 Gorffennaf 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: **Dyddiad:**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: **Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd**

Dyddiad yr arolygiad: **29 Gorffennaf 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd pob aelod o'r staff a all ymgymryd â rôl hebryngwr wedi cwblhau'r hyfforddiant ac roedd angen diweddaru'r polisi hebryngwyr er mwyn cynnwys y codau y dylai'r staff eu defnyddio wrth ddogfennu'r cynnig a'r defnydd o hebryngwr yng nghofnodion y cleifion.	• Dylai pob aelod o'r staff a all ymgymryd â rôl hebryngwr gwblhau'r hyfforddiant priodol. • Dylid diweddaru'r polisi er mwyn cynnwys y codau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Mae'r polisi hebryngwyr wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys codau SNOMED CT / Read clinigol penodol ar gyfer dogfennu bod gwasanaeth hebryngwr wedi cael ei gynnig, ei dderbyn neu ei wrthod o fewn EMIS Web. 2. Bydd y modiwl hyfforddiant gorfodol i hebryngwyr yn cael ei drefnu ar gyfer pob hebryngwr presennol ac unrhyw rai yn y dyfodol. 3. Mae adnodd i dracio'r hyfforddiant i hebryngwyr wedi cael ei sefydlu a'i ymgorffori yn arfarniadau blynyddol y staff.	Rheolwr Cynorthwyol y Practis	Wedi'i gwblhau 31 Awst 2026

2.	Roedd angen diweddaru'r wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer swyddogion llywio gofal er mwyn cynnwys gwybodaeth am weithio ochr yn ochr â'r system AI a dogfennau llwybrau safonol i gefnogi'r rôl hon yn fwy llawn.	Dylai'r broses llywio gofal gael ei chefnogi drwy ddarparu gwybodaeth gyfredol, gan gynnwys dogfennau llwybrau safonol, fel adnodd i'r staff anghlinigol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Amserol	1. Mae'r gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer llywio gofal wedi cael eu diweddaru er mwyn ymgorffori llwybrau brysbennu strwythuredig a chanllawiau ar weithio ochr yn ochr â system ffôn AI InTouchNow y dderbynfa. 2. Crëwyd cyfeiriadur llywio gofal safonol a chanllaw cyfeirio cyflym at ddibenion cyfeirio ar gyfer desgiau'r dderbynfa (gan gynnwys gwasanaethau Deintyddol, y Cynllun Anhwylderau Cyffredin, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg). 3. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant ar lywio gofal gyda'r holl staff blaen tŷ.	Rheolwr Cynorthwyol y Practis a Rheolwr y Practis	30 Medi 2026
3.	Nid oedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael ac roedd angen diweddaru gwefan y practis er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm clinigol wedi'u rhestru er gwybodaeth i'r cleifion.	Dylai gwybodaeth gyhoeddedig i gleifion fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a chynnwys yr holl wybodaeth allweddol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	1. Mae Taflen Wybodaeth i Gleifion ddwyieithog a chynhwysfawr ar gyfer y practis wedi cael ei chyhoeddi a'i hargraffu ac mae ar gael yn y dderbynfa ac yn yr ardal aros. 2. Mae gwefan y feddygfa wedi cael ei diweddaru i gynnwys proffiliau llawn am bob aelod o'r staff clinigol (Meddygon Teulu sy'n Bartneriaid, Meddygon Teulu Cyflogedig, Nyrsys y Practis, Fferyllydd Clinigol). 3. Mae taflen y practis wedi cael ei lanlwytho i wefan y practis ar ffurf PDF y gellir ei lawrlwytho.	Rheolwr y Practis a Rheolwr Cynorthwyol y Practis	30 Tachwedd 2026

4.	Roedd angen cryfhau camau i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith ymhellach.	Dylid ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	1. Mae'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg (Iaith Gwaith) wedi cael ei ymgorffori'n llawn yn yr ardal blaen tŷ: mae staff y dderbynfa yn defnyddio cyfarchiad dwyieithog ('Bore da / Prynhawn da') ac mae wedi cael ei recordio ar system ateb awtomatig y ffôn. 2. Mae laniardiau a bathodynnau 'Iaith Gwaith' wedi cael eu dosbarthu i aelodau o'r tîm sy'n siarad Cymraeg. 3. Mae fersiynau dwyieithog o arwyddion, posteri a ffurflenni cofrestru cleifion newydd wedi cael eu harchwilio a'u darparu yn yr ardaloedd aros ac ar y wefan.	Rheolwr Cynorthwyol y Practis	30 Hydref 2026
5.	Gwelwyd eitemau'n cael eu storio yn yr un ystafell â'r boeler.	Dylid cadw ystafell y boeler yn glir bob amser.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Aethpwyd ati i glirio'r holl eitemau, deunyddiau a nwyddau llosgadwy a oedd yn cael eu storio yn ystafell y boeler ar unwaith. 2. Mae arwydd Saesneg 'Plant / Boiler Room — Keep Clear At All Times / No Storage' amlwg wedi cael ei osod ar y drws mynediad. 3. Mae Rheolwyr y Practis wedi rhoi rhestr wirio diogelwch amgylcheddol misol ar waith er mwyn sicrhau bod yr ardal yn parhau i gael ei chadw'n glir bob amser.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith / Wedi'i gwblhau 31 Awst 2026

6.	Roedd rhywfaint o lwch wedi cronni yn yr ardaloedd storio, gan gynnwys lle roedd y cyfarpar brys yn cael ei gadw, ac roedd angen gwella argaeledd y mopiau, eu glendid a'r ffordd y maent yn cael eu storio.	• Dylid cynnal a chadw glendid yn gyson ym mhob rhan o'r practis • Dylai'r holl fopiau gofynnol fod ar gael i lanhau mannau cyffredinol, y toiledau ac ardaloedd clinigol a dylai pennau mopiau gael eu newid pan fyddant yn fudr a'u storio â'u pennau i fyny ac allan o'r bwcedi.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Aethpwyd ati i lanhau'r holl ardaloedd storio a'r cypyrddau ar gyfer storio cyfarpar brys yn drwyadl. 2. Mae system codau lliw genedlaethol GIG Cymru ar gyfer mopiau wedi cael ei hail-lenwi'n llawn (coch ar gyfer ystafelloedd ymolchi, glas ar gyfer ardaloedd cyffredinol, melyn ar gyfer ystafelloedd clinigol). 3. Gosodwyd rheiliau storio penodol ar gyfer mopiau sy'n sicrhau bod pennau mopiau yn cael eu storio â'u pennau i fyny, yn sych ac allan o'r bwcedi, a chaiff pennau budr eu golchi/newid bob wythnos. 4. Mae'r amserlen archwilio gwaith glanhau wedi cael ei diweddaru er mwyn cynnwys archwiliad wythnosol o'r cypyrddau storio a'r cyfarpar glanhau.	Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	Wedi'i gwblhau / 15 Awst 2026

7.	Nid oedd blychau offer miniog wedi'u labelu'n llawn fel sy'n ofynnol ac roedd hyn yn broblem reolaidd.	Dylid rhoi gweithdrefnau ar gyfer labelu biniau offer miniog wrth eu rhoi at ei gilydd a'u cau ar waith yn llawn.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Cwblhawyd archwiliad a hapwiriad ar unwaith o'r holl finiau offer miniog ym mhob un o'r 13 o ystafelloedd clinigol. 2. Ailrannwyd y weithdrefn weithredu safonol ar gyfer biniau offer miniog â'r holl staff clinigol a fflebotomi: mae'n rhaid cwblhau'r dyddiad, yr enw a lleoliad yr ystafell wrth roi'r bin at ei gilydd, ac ychwanegu dyddiad/llofnod wrth ei gau'n derfynol pan fydd yn 2/3 llawn. 3. Mae rhestr wirio wythnosol ar gyfer archwilio offer miniog a phrosesau atal a rheoli heintiau wedi cael ei chyflwyno er mwyn monitro cydymffurfiaeth barhaus.	Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	30 Medi 2026

8.	Nid oedd y biniau a oedd yn cael eu cadw mewn ardal storio a rannwyd â busnes arall yn cael eu cloi.	Dylid cadw'r biniau dan glo.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Adolygwyd yr ardal storio gwastraff allanol; mae cloeon clap a bariau cloi trwm wedi cael eu gosod ar bob bin ar olwynion a ddefnyddir ar gyfer gwastraff clinigol a chyfrinachol. 2. Mae protocol diogelwch yr ardal storio gwastraff wedi cael ei atgyfnerthu gyda'r staff domestig a chlinigol er mwyn sicrhau bod biniau'n cael eu cadw'n ddiogel dan glo bob amser ac eithrio pan gaiff gwastraff ei gasglu. 3. Mae camau i wirio'r perimedr allanol a chloeon y biniau wedi cael eu cynnwys ar y rhestrau gwirio diogelwch dyddiol ar gyfer agor a chau'r adeilad.	Rheolwr y Practis	31 Awst 2026

9.	Roedd polisïau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan nodwydd ar gael. Fodd bynnag, roedd angen cynnwys mwy o fanylion yn y rhain er mwyn cefnogi camau i'w rhoi ar waith.	Mae angen adolygu'r polisïau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan nodwydd er mwyn sicrhau: • Bod rhagofalon Legionella wedi'u dogfennu ar waith ar gyfer pob allfa ddŵr, gan gynnwys cyfleusterau cawod y staff • Bod gwybodaeth ar gael ynghylch â phwy y dylai'r staff gysylltu pe bai anaf a achosir gan nodwydd at ddibenion monitro a chymorth perthnasol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Effeithiol	1. Mae'r Polisi ar Atal a Rheoli Heintiau wedi cael ei ddiweddaru gan gynnwys cynllun ysgrifenedig cynhwysfawr ar gyfer Legionella: mae cofnodion fflysio allfeydd dŵr wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob allfa nad yw'n cael ei defnyddio'n aml a chyfleusterau cawod y staff (fflysio bob wythnos, cofnodi tymheredd bob mis). 2. Mae'r Polisi ar Anafiadau a Achosir gan Nodwydd / Pigiadau wedi cael ei ddiwygio i gynnwys siartiau llif brys, canllawiau cymorth cyntaf ar unwaith, manylion cyswllt tîm Iechyd Galwedigaethol BIP Caerdydd a'r Fro, a llwybrau uwchgyfeirio i Adran Damweiniau ac Achosion Brys y tu allan i oriau. 3. Mae posteri a siartiau llif wedi'u diweddaru wedi cael eu lamineiddio a'u harddangos ym mhob un o'r 13 o ystafelloedd clinigol.	Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau a Rheolwr y Practis	31 Awst 2026

10.	Ymhlith y cyfarpar brys, roedd angen calibradu'r ocsimedr pwls, roedd bagiau Ambu yn edrych yn hen ac nid oeddent mewn pecynnu addas a oedd yn arddangos dyddiadau dod i ben ac nid oedd y silindrau ocsigen wedi'u gosod yn sownd ar eu traed.	Dylai'r holl gyfarpar brys gael ei gynnal a'i gadw'n addas yn barod i'w ddefnyddio a dylai'r silindrau ocsigen gael eu gosod yn sownd yn eu lle.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Mae'r ocsimedrau pwls wedi cael eu hanfon am waith profi a chalibradu biofeddygol; mae'r tystysgrifau calibradu wedi'u cadw ar ffeil. 2. Mae'r bagiau Ambu brys wedi cael eu newid am becynnau adfywio untro newydd sbon, wedi'u selio, sydd â dyddiadau defnyddio clir. 3. Mae'r silindrau ocsigen wedi cael eu gosod yn sownd ac ar eu traed mewn bracedi wal a standiau storio pwrpasol. 4. Mae protocol y gwiriad wythnosol o'r troli brys wedi cael ei ffurfiol a'i neilltuo i'r staff nyrsio.	Nyrsys y Practis	30 Hydref 2026

11.	Nid oedd un Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer y pigiad atal cenhedlu, Depo-Provera, yn gyfredol ac roedd angen cael un newydd yn ei le neu ei ddiweddaru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol lawn.	Dylid sicrhau mai'r fersiynau diweddaraf o bob Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion a ddefnyddir yn y practis.	Safon (2023) – Diogel	1. Cafodd y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer Depo-Provera ei adolygu ar unwaith a'i ddisodli gan y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion cyfredol a awdurdodwyd yn llawn gan GIG Cymru / BIP Caerdydd a'r Fro. 2. Mae'r holl nyrsys sy'n rhoi meddyginiaeth wedi ail-lofnodi taflen awdurdodi ddiwygiedig y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion, ac mae'r Meddyg Teulu Arweiniol Clinigol wedi'i chydlofnodi. 3. Mae meistr-gofrestr o Gyfarwyddydau Grŵp Cleifion electronig canolog wedi cael ei sefydlu gyda rhybuddion awtomatig dri mis cyn iddynt ddod i ben.	Nyrsys y Practis	31 Hydref 2026

12.	Nid oedd pob aelod o'r staff yn gwybod pwy oedd arweinydd diogelu dynodedig y practis er mwyn uwchgyfeirio pryderon. Roedd angen cynnwys rhagor o fanylion yn y polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn darparu manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau diogelu allanol fel y gallai'r staff gael gafael ar y rhain yn gyflym pe bai angen, ac roedd angen ymgorffori'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol ymhellach. Yn ogystal, roedd angen cysylltu'r polisïau ar gyfer achosion lle nad oedd claf wedi mynychu apwyntiad neu lle nad oedd rhywun wedi dod â'r claf i apwyntiad er mwyn sicrhau nad oedd pryderon ynghylch diogelwch plant neu	Dylid adolygu'r gweithdrefnau diogelu yn unol â'r safonau cenedlaethol.	Safon (2023) – Diogel / Effeithiol	1. Mae Polisi Diogelu'r practis wedi cael ei ddiwygio er mwyn dangos yn glir pwy yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r Dirprwy Arweinydd, ac mae rhifau cyswllt allanol uniongyrchol wedi'u cynnwys ar gyfer tîm Diogelu Oedolion a Phwynt Mynediad Plant Caerdydd. 2. Mae siartiau llif y Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol wedi cael eu lamineiddio a'u gosod ym mhob ardal glinigol a gweinyddol. 3. Mae polisïau ar gyfer achosion lle nad oedd claf wedi mynychu apwyntiad neu lle nad oedd rhywun wedi dod â'r claf i apwyntiad wedi cael eu hintegreiddio: mae protocol gorfodol ar gyfer tynnu sylw a chael adolygiad gan feddyg teulu wedi cael ei roi ar waith ar gyfer unrhyw blentyn neu oedolyn agored i niwed nad yw'n dod i apwyntiadau wedi'u trefnu.	Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau / Dirprwy Arweinydd Diogelu a'r Meddyg Teulu Arweiniol ar gyfer Diogelu	31 Awst 2026

	gleifion eraill sy'n agored i niwed sy'n dibynnu ar bobl eraill i fynychu apwyntiadau yn cael eu colli.					
13.	Nid oedd protocolau ffurfiol ar gyfer ymdrin â'r amrywiaeth o gyfathrebiadau a geir ac a gynhyrchir gan y practis i gefnogi ffyrdd cyson o weithio ar draws y tîm neu alluogi archwiliadau er mwyn sicrhau bod prosesau'n gweithio'n dda.	Dylid ystyried protocolau llif gwaith ffurfiol i gefnogi'r staff a galluogi archwiliadau.	Safon (2023) – Diogel / Effeithiol	1. Crëwyd Protocol Llif Gwaith Safonol y Practis ar gyfer yr holl ohebiaeth glinigol sy'n dod i mewn ac yn mynd allan (Docman / adnodd rheoli dogfennau electronig EMIS Web). 2. Mae rolau gweinyddol clir wedi'u diffinio at ddibenion mynegeio, codio, adolygiad patholeg meddygon teulu, ac uwchgyfeirio brys. 3. Cyflwynwyd archwiliad misol o hapsampl (50 o ddogfennau) i fonitro cywirdeb mynegeio, amseroedd ymateb, a llifau gwaith sydd heb eu cwblhau.	Rheolwr Cynorthwyol y Practis a Rheolwr y Practis	30 Medi 2026

14.	Nid oedd templedi'n cael eu defnyddio'n gyson yng nghofnodion y cleifion a fyddai'n helpu i safoni ymarfer. Nodwyd achosion lle roedd y rhestr gryno yn anghyflawn a lle nad oedd adwaith niweidiol i gyffur wedi'i gofnodi'n gywir hefyd. Roedd trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer data a fewnbynnwyd yn systematig yn gyfyngedig ac mae'n debygol y byddai hyfforddiant pellach ar y system cofnodion cleifion electronig newydd yn fuddiol.	Dylid ystyried y canfyddiadau hyn a nodi dulliau ffurfiol i sicrhau ansawdd data a fewnbynnir a'u rhoi ar waith yn barhaus.	Safon (2023) – Diogel / Effeithiol	1. Mae templedi safonol ar gyfer ymgyngoriadau clinigol bellach yn orfodol yn EMIS Web ar gyfer adolygiadau arferol, clefydau cronig (Asthma/COPD/Diabetes), a monitro meddyginiaeth. 2. Ailrannwyd y protocol codio clinigol er mwyn sicrhau bod rhestrau cryno o broblemau ac Adweithiau Niweidiol i Gyffuriau / alergeddau yn cael eu dogfennu'n gyson. 3. Mae hyfforddiant gloywi wedi'i dargedu ar EMIS Web wedi'i drefnu ar gyfer y staff clinigol a gweinyddol; rhoddwyd archwiliadau adolygu cymheiriaid chwarterol ar waith mewn perthynas â chofnodion clinigol.	Rheolwr y Practis a nyrs y practis a enwebwyd	30 Tachwedd 2026

15.	Nid oedd yn ymddangos bod archwiliadau nac adolygiadau arferol o feddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n ffurfiol.	Dylid ystyried rôl y fferyllydd a sut y gellid datblygu adolygiadau o feddyginiaeth ac archwiliadau arferol.	Safonau Iechyd a Gofal 2023 – Diogel / Effeithiol	1. Mae cwmpas rôl y Fferyllydd Clinigol wedi cael ei ffurfioli, gan gynnwys sesiynau pwrpasol ar gyfer adolygiadau strwythuredig o feddyginiaeth a gweithdrefnau monitro cyffuriau risg uchel. 2. Cytunwyd ar gynllun archwilio meddyginiaeth ar draws y practis cyfan, gan ganolbwyntio ar gyffuriau gwrth-riwmatig sy'n addasu clefydau (DMARDau), Warfarin/gwrthgeulyddion gwrthweithio drwy'r geg (DOACau), lithiwm, ac amlgyffuriaeth ymhlith cleifion 75+ oed. 3. Mae slot mewn cyfarfod clinigol misol wedi'i neilltuo ar gyfer rhannu canfyddiadau archwiliadau presgripsiynu a dysgu o weithgarwch gwella ansawdd.	Rheolwr y Practis a'r Fferyllydd	30 Medi 2026

16.	Nododd ein hadolygiad o sampl o gofnodion personél a hyfforddiant nifer o fylchau.	• Dylid cadw cofnodion personél cynhwysfawr neu gwblhau asesiadau risg pan na fydd gwybodaeth ar gael ar y cam recriwtio neu'n dilyn hynny • Dylid diffinio ac ymgorffori rhaglen hyfforddiant craidd a chadw tystiolaeth gynhwysfawr o hyfforddiant	Safonau Iechyd a Gofal 2023 – Diogel / Effeithiol	1. Cwblhawyd archwiliad adnoddau dynol cynhwysfawr o holl ffeiliau personél y staff; crëwyd rhestr wirio sy'n cwmpasu tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon cyflogaeth, cofrestriadau proffesiynol (Cyngor Meddygol Cyffredinol/Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth), a gwiriadau iechyd galwedigaethol. 2. Mae asesiadau risg wedi'u dogfennu lle nad oedd modd cael gafael ar ddogfennau recriwtio hanesyddol. 3. Mae Matrics Hyfforddiant Canolog ar gyfer y practis wedi cael ei sefydlu ar Bluestream / llwyfan e-ddysgu GIG Cymru sy'n tracio hyfforddiant craidd statudol a gorfodol pob aelod o'r staff.	Rheolwr Cynorthwyol y Practis a Rheolwr y Practis	30 Medi 2026

17.	Roedd angen diweddaru polisi cwynion y practis a'r wybodaeth i gleifion er mwyn ymgorffori Gwrando ar Bobl: fframwaith GIG Cymru ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn (2026) yn llawn.	Dylai gwybodaeth ynghylch Gwrando ar Bobl: fframwaith GIG Cymru ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn (2026) gael ei darparu i'r cleifion a dylid ymgorffori'r fframwaith yn llawn.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Yn canolbwyntio ar yr unigolyn / Effeithiol	1. Mae Polisi Cwynion a Phryderon y practis wedi cael ei ddiweddaru er mwyn ymgorffori Gwrando ar Bobl: Fframwaith GIG Cymru ar gyfer Pryderon, Cwynion a Gwneud Iawn (2026) yn llawn. 2. Mae posteri a thaflenni ar gyfer adborth gan gleifion wedi'u diweddaru ar ffurf ddwyieithog ac i'w gweld yn yr ardal aros. 3. Diweddarwyd gwefan y practis gan gynnwys canllawiau penodol ynghylch Gwrando ar Bobl / Codi Pryder, amserlenni clir ar gyfer datrys materion, a gwybodaeth gyswllt ar gyfer eiriolaeth (Llais).	Rheolwr y Practis a Rheolwr Cynorthwyol y Practis	31 Awst 2026
18.	Nid oedd dull ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r cleifion am y gwersi y mae'r practis wedi'u dysgu mewn ymateb i adborth a gafwyd.	Dylid ystyried bwrdd ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni’, hysbysiad ar y wefan, neu ddulliau eraill.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Yn canolbwyntio ar yr unigolyn / Effeithiol	1. Mae bwrdd arddangos ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni’ ffisegol wedi'i osod yn y brif ardal aros i gleifion er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gan y practis a newidiadau i wasanaethau sydd wedi deillio o adborth gan gleifion. 2. Mae adran benodol ar gyfer gwersi a ddysgwyd gan y practis ac adborth gan gleifion wedi'i chreu ar wefan y feddygfa a chaiff ei diweddaru bob chwarter. 3. Mae adolygu adborth gan gleifion wedi cael ei ychwanegu fel eitem ar agenda cyfarfodydd tîm misol rheolwyr y practis.	Rheolwr Cynorthwyol y Practis	30 Tachwedd 2026

19.	Roedd angen diweddaru polisïau llywodraethu gwybodaeth ynghylch defnyddio systemau AI ar gyfer ymgyngoriadau ac at unrhyw ddiben arall.	Dylid diweddaru'r polisïau llywodraethu gwybodaeth.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	1. Diweddarwyd Polisi Llywodraethu Gwybodaeth y Practis er mwyn ymgorffori atodiad penodol ar lywodraethu AI a phrosesu data sy'n cwmpasu gwasanaeth ffôn AI InTouchNow. 2. Mae'r Asesiad Effaith Diogelu Data a'r Cytundeb Prosesu Data wedi'u hadolygu a'u cadw ar ffeil yn ffurfiol. 3. Mae Hysbysiad Preifatrwydd y wefan wedi'i ddiweddaru i roi gwybod i gleifion am y system ateb galwadau ffôn a gynorthwyir gan AI, mesurau diogelwch data a chydymffurfiaeth â GDPR.	Rheolwr y Practis	30 Tachwedd 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Gareth Lucocq

Swydd: Rheolwr y Practis **Dyddiad:** 18 Medi 2026